

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

| | |
|----------------------------|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 15 Medi 2020 |
| Adroddiad gan: | Dyfrig Siencyn, Arweinydd a Dafydd Meurig, Dirprwy Arweinydd |
| Swyddog Cyswllt | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |
| Teitl yr Eitem: | Covid-19 - Adfer |

Penderfyniad a geisir

Derbyn y diweddariad ar y gwaith sy'n mynd ymlaen i sefydlogi ac ail adeiladu yn sgil yr argyfwng Covid-19.

Cefndir

1. Er mwyn cynllunio'r hyn oedd angen sylw wrth symud ymlaen o'r argyfwng Covid -19, ym mis Mai, fe wnaeth y Cabinet gomisiynu'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i ystyried y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn nhermau'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ar gyfer y cyfnod o sefydlogi ac ail adeiladu sydd o'n blaenau.
2. Gofynnwyd i'r byrddau edrych ar y mater gan eu bod eisoes yn edrych ar newidiadau trawsffurfiol fyddai'n adeiladu ar y gwaith o sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn ar gyfer bobl Gwynedd.
3. Comisiynwyd y Grŵp Rheoli hefyd i ystyried pa faterion gweithrediad corfforaethol sydd angen ystyriaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig wrth i ni symud ymlaen at y "normal newydd" ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet os cyfyd yr angen am benderfyniad fel yn berthnasol.
4. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau'r Cabinet ar yr hyn sydd wedi digwydd hyd yma. Drwy hyn rhoddir cyfle i'r Cabinet arsylwi ar unrhyw elfen; unrhyw elfen sydd ar goll a/ neu roi cyfarwyddyd perthnasol.
5. Fel rhan o'r trefniadau deddfwriaethol ar gyfer ymateb i argyfwng mae yna Grŵp Cydgordio Adfer Rhanbarthol wedi cael ei sefydlu er mwyn cydgordio ymdrechion y gwahanol asiantaethau cyhoeddus wrth i gymdeithas symud o ymateb i'r argyfwng i fod yn sefydlogi ac ail adeiladu.

6. O dan ymbarél y grŵp hwnnw, fe ofynnwyd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd edrych ar faterion yn ymwneud ag adfer yr economi ar draws y rhanbarth; ac i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol edrych ar faterion yn ymwneud a gofal ac iechyd.
7. Bydd disgwyl i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd roddi sylw i'r materion hynny sydd yn ymwneud a gwydnwch cymunedol gan dderbyn wrth gwrs fod popeth bron yn rhan annatod o'r gwydnwch hwnnw.
8. Bydd angen sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fedru dylanwadu a bwydo mewn ein hanghenion yma yng Ngwynedd i'r ffrydiau gwaith yma.
9. Gyda hyn mewn golwg amlinellir isod yr hyn y mae'r byrddau wedi bod yn ystyried hyd yma.
10. Bwriedir cynnal gweithdy ar y cyd gyda holl aelodau'r Cabinet a Phenaethiaid ar 10 Medi rhag ofn bod rhywbeth wedi disgyn rhwng dwy stôl. Gallwn adrodd ar unrhyw faterion sydd yn codi ar lafar yn y cyfarfod.

Trefniadau Gwaith y Cyngor

11. Yn amlwg, y cam cyntaf mewn unrhyw broses sefydlogi yw sicrhau bod gwasanaethau arferol y Cyngor ar gael cyn gynted ag y bo modd ond wrth ail gychwyn mae yna ddadl gref dros fanteisio ar unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod clo ac ymgorffori hynny wrth ail gychwyn.
12. Cyngor Llywodraeth Cymru o hyd yw y dylai bobl weithio gartref oni bai nad ydynt yn gallu gwneud hynny.
13. Rydym wedi gwneud asesiad o ran pa swyddogion sy'n methu gweithio gartref ond oherwydd gallu technolegol y Cyngor - ychydig iawn o rhain sydd yna mewn gwirionedd, a'r bwriad yw dod a'r swyddogion hynny yn ôl i'r swyddfa. Rydym hefyd wedi adnabod y rhai hynny lle mae angen iddynt ddod 'nôl i'r swyddfa er mwyn gallu adfer unrhyw wasanaeth penodol. Eto, rhagwelwn mai cyfyng iawn yw'r niferoedd yma hefyd.
14. Mae yna gryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i sefydlu trefniadau o fewn y swyddfeydd fydd yn eu gwneud mor ddiogel ag sy'n bosibl ond mae hynny yn golygu bod y capasiti o fewn y swyddfeydd yn sylweddol llai. Nid yw hynny am fod yn broblemus o ran y niferoedd yr ydym yn son amdanynt ar hyn o bryd.

15. Rhagwelwn y bydd unrhyw newid ehangach yn ddibynnol ar unrhyw newid ym mholisi'r Llywodraeth, ond gan dderbyn y cyfyngiadau capasiti uchod beth bynnag fydd y polisi.
16. Bydd hyn oll yn digwydd dros y mis neu ddau nesaf gyda golwg ar gael yr holl wasanaethau hynny y mae modd eu hadfer yn ôl ar eu traed. Ar adeg sgwennu'r adroddiad yma, mae'r adrannau yn nodi bod nifer helaeth bellach yn gweithredu fel arfer neu gyda rhai addasiadau i gyfarch y gofynion o ran delio a'r haint gyda'r gweddill yn methu a gweithredu oherwydd y rheolau pellhau cymdeithasol lle nad oes ateb rhwydd ar gyfer dod dros y rhwystr sylfaenol hwnnw.
17. O ran y trefniadau gwleidyddol, mae yna gyfarfodydd rhithiol o bwyllgorau yn digwydd eisoes gyda'r Cabinet a'r pwyllgorau cynllunio, trwyddedu, pensiynau ac archwilio eisoes yn cwrdd. Dros y bythefnos nesaf bydd Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion y pwyllgorau craffu yn cwrdd gyda'r aelodau cabinet a'r penaethiaid perthnasol er mwyn ystyried rhaglen graffu addasedig ar gyfer y pwyllgorau craffu i'r dyfodol.
18. Mae yna drefniadau ar droed hefyd i gynnal cyfarfod o'r Cyngor yn rhithiol ar 1 Hydref.
19. O ran trefniadau gwaith o fewn y Cyngor, un o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod yw bod modd manteisio ar y dechnoleg er mwyn osgoi teithio i gyfarfodydd sydd yn rhyddhau amser swyddogion ac yn rhoi buddion sylweddol o ran ôl troed carbon y Cyngor a'r ymgais i wneud mwy o ran yr agenda newid hinsawdd. Mae yna brotocol cynnal cyfarfodydd yn cael ei lunio ar gyfer swyddogion ar hyn o bryd a bwriedir creu un cyfochrog ar gyfer aelodau.
20. Yn yr un modd, mae'r profiadau diweddar wedi dangos bod manteision i gael o fod yn ymestyn y cysyniad o weithio gartref yn fwy parhaol i rai. Tra bod yna ddadleuon o blaid ac yn erbyn i'r Cyngor fod yn gwneud hynny, ar y cyfan mae'r glorian yn pwysu mwy tuag at y ddadl o fod yn fwy hyblyg o ran rhoi dewis i staff, yn arbennig gan fod yna fanteision amlwg wedi cael ei amlygu gan nifer o staff iddynt hwy o ran eu hol troed carbon; eu heffeithiolrwydd a'r balans bywyd / gwaith.
21. Rydym ar hyn o bryd yn llunio fframwaith yn nodi sut y byddai hyn yn edrych gyda golwg ar gynnal arolwg staff i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn gwneud y trefniant o weithio gartref yn un parhaus.
22. Mae angen dipyn o waith ar hyn er mwyn sicrhau bod yr achos dros wneud hynny yn glir a byddwn yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar hyn maes o law.

Bwrdd Adfywio

23. Cyn i'r cyfnod clo ein taro, roedd y Bwrdd Adfywio eisoes yn ymchwilio i'r cysyniad o greu cynllun adfywio ar gyfer yr amrywiol ardaloedd yng Ngwynedd gyda golwg ar greu'r cynlluniau yma drwy sefydlu'r hyn sy'n bwysig i'r gymuned leol.
24. Fel cam cyntaf yn y broses honno, adnabuwyd 13 ardal fel sylfaen ar gyfer creu'r cynlluniau hynny.
25. Y bwriad yw i'r cynlluniau yma adnabod beth sy'n bwysig ynghyd a beth y gellir ei wneud yn ymarferol i weithio ar hynny a phwy sydd am ei gyflawni. Y gobaith yw cael perchnogaeth a gweithrediad lleol ar y materion hynny.
26. Nid yw'r argyfwng wedi newid y dyhead hwnnw ond bellach rydym yn cychwyn o le gwahanol, yn enwedig o ystyried sgil effeithiau economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o'r argyfwng.
27. Fel rhan o'r gwaith yma, ym mis Gorffennaf cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithiol gydag aelodau'r Cyngor ar gyfer yr ardaloedd unigol er mwyn egluro'r cysyniad. Cymerwyd y cyfle hefyd i ofyn pa bethau y dylai'r Cyngor fod yn ei wneud yn y tymor byr i helpu'r cymunedau i ddechrau ail adeiladu.
28. Roedd yna groesawu cyffredinol i'r cyfeiriad arfaethedig a'r cam nesaf fydd dechrau ar raglen i gynnal y sgysiau perthnasol yn yr amrywiol gymunedau. Bydd yn amhosibl gwneud hyn ar gyfer y 13 ardal yr un pryd, a'r bwriad yw sefydlu rhaglen dreigl i gyflawni hynny. Byddwn yn adrodd ar y rhaglen dreigl yma i'r Bwrdd Rhaglen maes o law.
29. Wrth ystyried y meysydd sydd angen sylw mae'r Bwrdd Adfywio wedi sefydlu amryw o feysydd gwaith sydd wedi amlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw fel a ganlyn ac mae gan bob un maes weithgor o swyddogion yn ymchwilio i weld beth y gellir ei wneud i weithredu yn y meysydd hynny.
30. Y meysydd dan sylw yw -
 - **Cefnogi Busnesau** - hyd yma mae'r gweithgaredd yn y maes yma wedi bod yn canolbwyntio ar roddi cymorth tymor byr i fusnesau drwy sicrhau taliadau i fentrau cymwys i'r Cynllun Grant Busnes Llywodraeth Cymru a delio ag ymholiadau a cheisiadau am Gymorth fel arall gan fusnesau. Mae yna ymgyrch yn cael ei chynnal o dan ymbarél y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gael gwybodaeth am sut y mae Covid-19 wedi effeithio ar fusnesau yng Ngwynedd a rhoi Cymorth

ymarferol i fusnesau wrth iddynt geisio gweithredu a chydymffurfio a'r rheolau sy'n bodoli er mwyn gwneud hynny.

Bydd gwaith nawr yn esblygu i ddadansoddi gwir effeithiau Covid-19 ar fusnesau ac ystyried yr ymyraethau pellach y mae angen i'r Cyngor eu cymryd er mwyn helpu busnesau o fewn y sir.

- **Canol trefi** - eto bu'r ymdrechion hyd yma yn canolbwyntio ar yr ymdrechion tymor byr oedd eu hangen er mwyn gosod strwythur ar ein strydoedd fyddai'n atgoffa pobl i gadw at y rheolau pellhad cymdeithasol ac i gynnig datrysiadau yn y manau hynny lle byddai hynny yn fwy o sialens. Bu ymdrechion hefyd i ymateb i geisiadau lleol i newid trefniadau strydoedd er mwyn ceisio cynorthwyo masnachwyr.

Gan fod gennym gymaint o wahanol fangreoddedd a phwysau anarferol niferoedd ymwelwyr yn fwy na fyddem yn eu gweld fel arfer (a'r angen iddynt hwy gadw ar wahân) mae dygymod gyda'r sefyllfa wedi bod yn anodd dros ben. Roedd ardaloedd canol trefi eisoes yn wynebu heriau a chyfnod o newid, ac mae'n debygol y bydd sgil effeithiau Covid-19 yn cyflymu rhai o'r newidiadau hyn. Bydd sylw nawr yn symud i'r weledigaeth tymor canolig o sut y gallwn gefnogi a hwyluso adfywio ein canol trefi unigol a bydd angen ystyried a ydym am greu'r weledigaeth hwnnw fel rhan o'r Cynlluniau Adfywio ardaloedd y nodwyd uchod ynteu trwy ryw drefn arall.

- **Twristiaeth** - Roedd y Cabinet eisoes wedi cychwyn ar waith o gael sgwrs eang er mwyn ceisio diffinio'r hyn a olygir gennym drwy fod eisiau twristiaeth gynaliadwy. Ataliodd y cyfnod clo'r gwaith hwnnw ond mae'r profiadau dros y cyfnod wedi amlygu bod angen bod yn glir beth yr ydym am ei weld yn digwydd yng Ngwynedd i'r dyfodol o ran twristiaeth gynaliadwy. Mae yna waith ar droed i gael barn bobl busnes eu hunain cyn sefydlu'r egwyddorion i'w hystyried gan y Cabinet.
- **Prynu'n Lleol** - Roedd Cynllun Corfforaethol y cyngor eisoes yn nodi ein bod am edrych i sicrhau bod cymaint â phosibl o wariant y Cyngor yn aros yn lleol. Mae'r argyfwng wedi amlygu fod hyn mor bwysig ag erioed os ydym am helpu economi Gwynedd, ac mae yna ail afael a'r gwaith hwnnw bellach wedi cychwyn. Mae'r gweithgor swyddogion hefyd yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar y tueddiad a welwyd gan rai yn ystod y cyfnod clo i brynu yn lleol gan geisio plethu hynny gyda'r reality fod nifer wedi symud hefyd i brynu ar lein. Yn y tymor byr felly, bydd ymdrechion pellach i annog a hybu gwariant yn lleol; gyda gwaith fwy i'r tymor canolig yn ystyried cyfloed er datblygu polisiau a gweithdrefnau caffael cynaliadwy'r Cyngor.

Bwrdd Cefnogi Pobl

31. Yn yr un modd mae'r Bwrdd Cefnogi Pobl wedi sefydlu ffrydiau gwaith sydd yn edrych ar y meysydd canlynol -

- **Model penblaen** - un o'r gwersi a ddygwyd yn ystod y cyfnod cloi oedd bod yna lawer o unigolion angen cymorth gyda'u bywydau; bod natur y cymorth hwnnw yn wahanol mewn gwirionedd ym mhob un achos, ac nad oedd bob tro yn disgyn o dan ddiffiniad yr hyn y roedd awdurdodau yn draddodiadol yn ei gyflawni. 'Roedd yna fyddin o wirfoddolwyr wrth gwrs ar gael i'r Cyngor yn ystod y cyfnod i gyflawni gwahanol bethau i unigolion ond o ran trefniadau'r Cyngor, bu i ni roi trefn mewn lle, lle byddai modd i unrhyw un ffonio'r Cyngor a'r cwestiwn cyntaf oedd i geisio darganfod beth oedd problem unigolyn ac yn hytrach na'u cyfeirio yn syth at rywun arall - i geisio datrys y broblem honno yn syth. Rhoddwyd rhyddid llwyr i'r tîm newydd hwn i ymateb fel ag yr oedd angen i ddatrys y materion oedd dan sylw.

Mewn gwirionedd dyma egwyddorion Ffordd Gwynedd ar waith yn ei ffurf hollol bur. Y cwestiwn mawr yw a ddylem barhau gyda threfn o'r fath. Mae yna weithgor yn edrych ar y gwersi mewn dyfnder er mwyn ystyried a ddylem barhau gyda strwythur cyffelyb i'r dyfodol a sut y gallwn wneud hynny, law yn llaw a chefnogi'r ymdrech gymunedol os yn greiddiol iddo

Mae trefniadau cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn rhan o drefniadau yr adran oedolion ac adran blant ac felly bydd rhaid ystyried yn ofalus unrhyw newid o ran ceisio sicrhau bod ein trefniadau yn syml ac yn effeithiol.

- **Digartrefedd** - Dros y cyfnod clo fe dderbyniwyd adnoddau sylweddol gan y Llywodraeth i sicrhau nad oedd yna unrhyw un yn cysgu ar y stryd ac yn sgil y buddsoddiad hwnnw, mae'n deg dweud ein bod wedi taclo digartrefedd bron dros nos drwy daflu adnoddau ato. Mae'n annhebygol iawn y bydd y lefel adnoddau yma yn parhau ac mae gennym nifer o rwystrau strwythurol sydd angen eu datrys os ydym am fedru sicrhau nad ydym yn llithro am yn ôl. Mae'r gwaith yn y maes yma yn datblygu nifer o gynlluniau er mwyn cyfarch hynny.
- **Lles ac Addysg Plant Difreintiedig / Bregus** - Yn amlwg dros y cyfnod clo roedd yna berygl go iawn i les rhai plant a byddai yna risg iddynt ddisgyn ar ei hol hi gyda'u datblygiad addysgol ddisgyn yn bellach fyth ar ei hol hi. Mae'r Adran Addysg yn gweithio gydag ysgolion unigol er mwyn sicrhau fod yna drefn i adnabod a gweithredu i helpu unrhyw un fyddai'n dod o fewn y category yma.

Agwedd arall o'r ffrwd gwaith yma yw ystyried y profiad mae nifer o deuluoedd wedi ei gael o fod yn treulio mwy o amser gyda'i gilydd. Mewn sawl enghraifft mae teuluoedd wedi adrodd bod y cyfnod gyda'i gilydd wedi bod yn bositif a bod perthnasoedd yn well. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i hyn i weld sut gallwn ymgorffori'r dysgu hyn i'n trefniadau wrth symud ymlaen.

- **Tlodi ariannol** - yn ystod y cyfnod clo gwyddom fod 28% o weithwyr y sir wedi bod ar gynllun "furlough" y Llywodraeth a bod yna gynnydd sylweddol wedi bod yn y rhai sy'n hawlio credyd cynhwysol. Mae gennym gynlluniau ar hyn o bryd sydd yn addasu i ymateb i'r heriau cynyddol o amgylch cyflogaeth ac mae yna waith yn digwydd o fewn y Gweithgor yma i ystyried a oes yna risgiau i'r cynlluniau yma ddod i ben (wrth i grantiau ddod i ben) ac a yw'r cynlluniau sydd gennym yn ateb y gwir angen yn y ffordd orau.

Mae tlodi ariannol hefyd wedi arwain at nifer o aelwydydd yn dibynnu ar ac yn defnyddio cynlluniau a banciau bwyd yn lleol. Rydym yn edrych ar ein cynlluniau presennol i weld os oes cyfleoedd i ddargyfeirio adnoddau i'r maes hwn. Elfen arall o dlodi ariannol yw dibyniaeth nifer fwy o bobl ar fudd-daliadau a mynediad rhwydd i gyngor ariannol felly byddwn gyda'n partneriaid yn edrych ar unrhyw gyfleoedd i ail drefnu ein hunain fel ein bod yn wirioneddol ystyried y materion drwy lygaid y dinesydd, yn hytrach na natur ymyrraeth y swyddogaethau penodol.

- **Gofalwyr di-dâl** - dros y cyfnod clo bydd y baich ar ofalwyr di-dâl wedi bod yn fwy nag erioed. Mae'r gweithgor yn ystyried a oes angen unrhyw weithgaredd pellach ar ran y Cyngor i ymateb i hynny, ac os oes beth ddylid ei wneud.
- **Pobl sy'n cysgodi** - Dros y cyfnod clo, gyda chymorth ymdrechion gwirfoddolwyr, bu'r Cyngor yn llwyddiannus iawn yn sicrhau nad oedd y rhai hynny oedd yn cysgodi ond lle nad oedd ganddynt rwydwaith gefnogol eu hunain, yn cael eu gadael heb Gymorth na bwyd. O'r 16 Awst mae'r "rheolau cysgodi" wedi cael eu meirioli ond nid yw hynny yn golygu bod y garfan yma yn llai bregus. Mae'r gweithgor yn edrych i weld a yw'r unigolion yma yn sydyn yn gallu edrych ar ôl eu hunain ynteu a oes angen rhyw fath o ôl ddarpariaeth.
- **Cynhwysiad Digidol** - un o'r pethau ddigwyddodd dros y cyfnod clo oedd yr aeth popeth bron ar lein. Bu i hyn danlinellu pa mor bwysig yw cynhwysiad digidol ac mae yna amryw o agweddau i hyn - fforddiadwyedd y cyfarpar; yr isadeiledd i fedru cael mynediad a'r sgiliau i'w ddefnyddio. Mae'r grŵp yma yn ystyried a yw ein

trefniadau presennol ar gyfer ymyrryd yn y meysydd yma yn ddigonol ynteu a oes angen bod yn gwneud mwy.

- **Materion cydraddoldeb** – yn amlwg byddwn yn ystyried materion cydraddoldeb fel rhan annatod o bob dim i wneud gyda chefnogi pobl, ond rydym yn awyddus i ystyried os oes unrhyw wersi i'w dysgu o ran sut yr ydym wedi gallu cefnogi pobl gydag anghenion penodol dros y cyfnod clo. Yn benodol rydym am edrych i weld os oes faterion o ran argaeledd gwybodaeth i'n dinasyddion sydd angen sylw pellach.

32. Mae'r uchod yn rhoi blas o'r gweithgaredd sy'n mynd ymlaen i ymateb i'r materion hynny lle rydym o'r farn bod angen ystyried a yw ein hymateb i'r meysydd dan sylw yn ddigonol ynteu a oes angen gwneud mwy.
33. Wrth i'r trafodaethau esblygu, rhagwelaf y bydd y ddau Fwrdd yn ystyried y cynigion hynny gan wneud argymhellion perthnasol i'r Cabinet eu hystyried.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol:

Swyddog Monitro

"Mae'r adroddiad yn cyfleu yn eglur y sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau adfer yn cael eu gweithredu o fewn argyfwng sydd yn esblygu. Wrth symud ymlaen gyda'r cynlluniau, bydd rhaid ystyried unrhyw addasiadau i'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r argyfwng, a bydd angen mewnbwn a chyngor cyfreithiol ar yr adeg yna."

Pennaeth Cyllid

"Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu llawer o'r gweithgaredd i ymateb i'r argyfwng yma, e.e. Grantiau Busnesau, a Digartrefedd. Fodd bynnag, roedd hynny'n arian un-tro am eleni yn unig, a ddim yn cyfarch y cyfan o'r angen. Byddwn yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod dilynol o'r Cabinet yn egluro'r ymhlygiadau cyllidebol anochel. Wrth ystyried cynlluniau adfer a gwella i'r dyfodol, bydd raid i'r Byrddau adnabod yr adnoddau parhaol fydd angen i weithredu yn y meysydd perthnasol".